O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 2510 (Cy. 249)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Cylchfan Raven, Y Trallwng i Nant-y-dugoed, Powys) (Gwaharddiad a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013

*Gwnaed* *30 Medi 2013*

*Yn dod i rym* *7 Hydref 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Amwythig – Dolgellau (yr A458) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Hydref 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Cylchfan Raven, Y Trallwng i Nant-y-dugoed, Powys) (Gwaharddiad a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08.00 o'r gloch ar 7 Hydref 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A458 yn Sir Powys sy’n ymestyn o’i chyffordd â Chylchfan Raven, y Trallwng hyd at ffin sirol Powys/Gwynedd yn Nant-y-dugoed.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a’r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Medi 2013

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.